Y Ddihangfa Wyllt

Adnodd Adrodd Straeon

Crëwyd gan

THE STORY MUSEUM

Cynhyrchwyd gan

Art Fund_

Ariennir gan

LOTTERY FUNDED

ARTS COUNCIL ENGLAND

Supported using public funding by

ARTS COUNCIL ENGLAND

Y Ddihangfa Wyllt – Adnodd Adrodd Straeon

Cyd-destun

Mae'r Ddihangfa Wyllt yn brosiect ledled y DU sy'n gofyn i blant archwilio'r creaduriaid yn eich amgueddfa a chreu gwaith celf sy'n dychmygu taith un creadur i gynefin naturiol sy'n gyfoeth o fywyd. Bydd y straeon a'r lluniau y mae'r plant yn eu gwneud yn cael eu cyfuno mewn gwaith celf ar y cyd, a fydd yn cael ei ddadorchuddio yn ystod penwythnos o weithgareddau i bob oed ar Ddiwrnod y Ddaear 2023.

www.artfund.org/pages/the-great-escape

Cyflwyniad

Bydd amgueddfeydd, orielau a thai hanesyddol ledled y DU yn dewis elfen o'u casgliadau neu ofodau sy'n cynnwys unrhyw fath o greadur a geir yn y DU. Bydd sefydliadau'n cefnogi'r myfyrwyr i edrych arno'n ofalus, dysgu am ei gynefin, ei ddychmygu'n torri o'r ffrâm, yn dod yn fyw ac yna'n cychwyn ar daith i gynefin naturiol sy'n gyfoeth o fywyd.

Mae'r adnodd hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr amgueddfeydd, orielau a safleoedd hanesyddol i hwyluso grwpiau o fyfyrwyr 7 i 11 oed i greu stori o amgylch eu creadur o ddewis. Bydd myfyrwyr yn gadael y sesiwn gyda strwythur ar gyfer y stori y gallant wedyn ei ddatblygu dros gyfnod hwy yn y dosbarth, gan gynnwys manylion disgrifiadol ac addurniadau, wedi'u seilio ar ymchwil wyddonol i gynefinoedd.

Mae adnoddau argraffu ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae'r strwythur stori arfaethedig yn defnyddio dyfeisiau adrodd straeon clasurol gan gynnwys Rheol Tri, a strwythur stori'r cyrch a ysbrydolwyd gan stori cyrch o ddamcaniaeth Joseph Campbell am y Monomyth neu daith yr arwr.[1]

Cyn y sesiwn, mae angen i chi ddewis creadur o'ch casgliad, neu o fewn eich adeilad. Dyma fydd prif gymeriad stori i'w defnyddio fel enghraifft wedi'i modelu. Bydd pob myfyriwr yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu syniadau ar gyfer stori am y creadur a ddewiswyd ymlaen llaw. Bydd y sesiwn yn arwain at amrywiaeth o straeon gwahanol, megis gwahanol ddulliau o ddianc, ond bydd gan bob un yr un cynsail. Bydd y myfyrwyr yn cael Ffrâm Stori i helpu i strwythuro eu naratif, y gallant wedyn ei ddatblygu'n ddarn hirach ar ôl y sesiwn.

Mae'r sesiwn wedi'i chynllunio fel sesiwn unigol fel y gellir ei chyflwyno naill ai cyn neu ar ôl ymweliad â'r mannau arddangos.

—

1 Joseph Campbell, *The Hero with a Thousand Faces,* 1949.

Bydd angen i chi baratoi’r canlynol:

Dewis y creadur sydd yn eich casgliad. Mae enghraifft gan yr Amgueddfa Stori wedi’i modelu yn y pecyn gwers – llwynog ceramig sy’n cael ei gadw y tu ôl i wydr.

- Ysgrifennu taflen ysgogi Taith Stori sy'n modelu enghraifft o stori lle mae'r creadur yn torri allan o'r gofod arddangos. Sicrhau bod eich enghraifft wedi'i modelu yn cynnwys cymeriad Cynorthwyydd a chymeriad Rhwystr. Mae enghraifft wedi'i modelu o lwynog yr Amgueddfa Stori wedi'i chynnwys yn y pecyn gwers.

- Yn ddewisol, ysgrifennu ail daflen ysgogi Taith Stori ar gyfer gweithgaredd cloi.

- Os oes angen, addasu'r Ffrâm Stori i'w gwneud yn berthnasol i'ch enghraifft wedi'i modelu.



Amser	Adnoddau sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: SESIWN LLYTHRENNEDD			
5 munud	Llun o'r creadur a ddewiswyd ymlaen llaw o'ch casgliad.	Cyflwynwch ddelwedd o’r creadur a ddewiswyd yn ei amgylchedd yn yr Amgueddfa, fel llun ar sgrin neu gopïau printiedig. Bydd y myfyrwyr yn chwilio am yr arddangosyn go iawn yn eu hymweliad â'r Amgueddfa yn ddiweddarach, neu efallai eu bod eisoes wedi gweld yr arddangosyn go iawn ar ymweliad cynharach. Fel dosbarth, trafodwch sut brofiad fyddai bod y creadur hwn. Beth allwch chi ei weld? Beth allwch chi ei glywed? Beth allwch chi ei arogli? Beth yw teimlad y tir wrth eich pawennau/crafangau/ac ati? Beth yw’r tymheredd – pa mor boeth neu oer ydych chi’n teimlo ar eich croen/ffwr/plu/adenydd?	Dangoswch ddelwedd o'r Llwynog y tu ôl i wydr ar y PowerPoint neu ar luniau Fel dosbarth, trafodwch sut brofiad fyddai bod y creadur hwn. Beth allwch chi ei weld? Beth allwch chi ei glywed? Beth allwch chi ei arogli? Beth yw teimlad y tir wrth eich pawennau/crafangau/ac ati? Beth yw’r tymheredd – pa mor boeth neu oer ydych chi’n teimlo ar eich croen/ffwr/plu/adenydd?

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
5 munud	Llun o'r creadur a ddewiswyd ymlaen llaw o'ch casgliad.	Cyflwynwch ddelwedd o’r creadur a ddewiswyd yn ei amgylchedd yn yr Amgueddfa, fel llun ar sgrin neu gopïau printiedig. Bydd y myfyrwyr yn chwilio am yr arddangosyn go iawn yn eu hymweliad â'r Amgueddfa yn ddiweddarach, neu efallai eu bod eisoes wedi gweld yr arddangosyn go iawn ar ymweliad cynharach. Fel dosbarth, trafodwch sut brofiad fyddai bod y creadur hwn. - Beth allwch chi ei weld? - Beth allwch chi ei weld? - Beth allwch chi ei arogli? - Beth yw teimlad y tir wrth eich pawennau/crafangau/ac ati? - Beth yw’r tymheredd – pa mor boeth neu oer ydych chi’n teimlo ar eich croen/ffwr/plu/adenydd?	Dangoswch ddelwedd o'r Llwynog y tu ôl i wydr ar y PowerPoint neu ar luniau Fel dosbarth, trafodwch sut brofiad fyddai bod y creadur hwn. - Beth allwch chi ei weld? - Beth allwch chi ei glywed? - Beth allwch chi ei arogli? - Beth yw teimlad y tir wrth eich pawennau/crafangau/ac ati? - Beth yw’r tymheredd – pa mor boeth neu oer ydych chi’n teimlo ar eich croen/ffwr/plu/adenydd?

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
10 munud	Swigod siarad, calon a meddwl, (digon i un fesul myfyriwr) **(ADNODD A)** Beiros	Trefnwch y myfyrwyr mewn grwpiau o bedwar neu bum myfyriwr. Dewisir un myfyriwr i fod yn arddangosyn. Dosbarthwch y cardiau swigod meddwl, calon a siarad, **(ADNODD A)** a beiros. Dylid rhoi digon o adnoddau i bob grŵp i gael un cerdyn ac un beiro i bob myfyriwr. Dylai fod o leiaf un cerdyn meddwl, un cerdyn calon ac un cerdyn swigen siarad gan bob grŵp. Ar y cardiau, mae myfyrwyr yn ysgrifennu syniadau i gynrychioli meddyliau a breuddwydion y creadur (cerdyn meddwl), emosiynau (cerdyn calon) a geiriau llafar (swigod siarad). Dylent ysgrifennu yn y person cyntaf, gan ddefnyddio 'dwi' neu 'rwy'. Ymhlith rhai cwestiynau ysgogi gallwch gynnwys: - Sut deimlad yw methu symud eich pen? - Beth allwch chi ei weld? - Beth allwch chi ei glywed? - Beth allwch chi ei arogli? - Beth ydych chi'n ei weld pan fydd yr Amgueddfa ar gau gyda'r nos? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn cerdded heibio ac yn eich anwybyddu? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn dweud pa mor wych ydych chi'n edrych? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn dweud pa mor hen a diflas ydych chi'n edrych? - Am beth ydych chi'n meddwl trwy'r dydd? - Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr ymwelwyr? - Beth hoffech chi ei ddweud wrth y bobl sy'n gweithio yn yr Amgueddfa? - Beth yw eich breuddwyd? Mae grwpiau yn cymryd eu tro i gyflwyno eu syniadau yn ôl i'r grŵp cyfan. Wrth gyflwyno, mae'r myfyriwr a ddewiswyd i gynrychioli'r creadur yn sefyll fel y mae'r creadur yn cael ei arddangos yn yr arddangosfa. Mae'r myfyrwyr eraill yn y grŵp yn sefyll o amgylch y creadur, yn dal y swigod meddwl, calon a siarad ac yn eu darllen yn uchel i'r grŵp cyfan. Gall yr athro ddewis tynnu llun o hyn.	Trefnwch y myfyrwyr mewn grwpiau o bedwar neu bump myfyriwr. Dewisir un myfyriwr i fod yn arddangosyn. Dosbarthwch y cardiau meddwl, calon a swigen siarad, **(ADNODD A)** a beiros. Dylai fod gan bob grŵp ddigon o adnoddau ar gyfer un cerdyn ac un beiro i bob myfyriwr. Dylai fod o leiaf un cerdyn meddwl, un cerdyn calon ac un cerdyn swigen siarad gan bob grŵp. Ar y cardiau, mae myfyrwyr yn ysgrifennu syniadau i gynrychioli meddyliau'r Llwynog (cerdyn meddwl), emosiynau (cerdyn calon) a geiriau llafar (swigod siarad). Dylent ysgrifennu yn y person cyntaf, gan ddefnyddio 'dwi' neu 'rwy'. Ymhlith rhai cwestiynau ysgogi gallwch gynnwys: - Sut deimlad yw methu symud eich pen? - Beth allwch chi ei weld? - Beth allwch chi ei glywed? - Beth allwch chi ei arogli? - Beth ydych chi'n ei weld pan fydd yr Amgueddfa ar gau gyda'r nos? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn cerdded heibio ac yn eich anwybyddu? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn dweud pa mor wych ydych chi'n edrych? - Sut mae'n teimlo pan fydd ymwelydd yn dweud pa mor hen a diflas ydych chi'n edrych? - Am beth ydych chi'n meddwl trwy'r dydd? - Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr ymwelwyr? - Beth hoffech chi ei ddweud wrth y bobl sy'n gweithio yn yr Amgueddfa? - Beth yw eich breuddwyd? Mae grwpiau yn cymryd eu tro i gyflwyno eu syniadau yn ôl i'r grŵp cyfan. Wrth gyflwyno, mae'r myfyriwr a ddewiswyd i gynrychioli'r creadur yn sefyll fel y mae'r creadur yn cael ei arddangos yn yr arddangosfa. Mae'r myfyrwyr eraill yn y grŵp yn sefyll o amgylch y creadur, yn dal y swigod meddwl, calon a siarad ac yn eu darllen yn uchel i'r grŵp cyfan. Gall yr athro ddewis tynnu llun o hyn.

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
5 munud		Eglurwch i’r myfyrwyr fod y creadur yn mynd i gynllunio ei Ddihangfa Wyllt i adael yr Amgueddfa a chyrraedd cynefin mwy naturiol. Rydyn ni'n mynd i feimio enghraifft. Dywedwch wrth y myfyrwyr i sefyll yn eu gofod eu hunain yn yr ystafell. Mae pob un ohonynt wedi dod yn greadur dewisol yn eu byd stori eu hunain. Gofynnwch i'r myfyrwyr gerdded o amgylch y gofod fel y creadur a ddewiswyd, tra byddwch chi'n darllen eich sgript Taith Stori wedi'i baratoi fesul llinell. Maen nhw'n ymateb i'r hyn rydych chi'n ei ddweud, gan feimio gweithredoedd sy'n dehongli eich sgript. Noder, sicrhewch fod eich enghraifft wedi'i modelu yn cynnwys cymeriad Cynorthwyydd a chymeriad Rhwystr, a'ch bod yn modelu enghraifft o gynllun Dianc sy'n methu yn y pen draw.	Eglurwch i’r myfyrwyr fod y Llwynog yn mynd i gynllunio ei Ddihangfa Wyllt i adael yr Amgueddfa a chyrraedd cynefin mwy naturiol. Rydyn ni'n mynd i feimio enghraifft. Mae myfyrwyr yn sefyll yn eu gofod eu hunain yn yr ystafell. Mae pob un ohonynt wedi dod yn greadur dewisol yn eu byd stori eu hunain. Gofynnwch i'r myfyrwyr gerdded o amgylch y gofod fel y creadur a ddewiswyd, tra byddwch chi'n darllen eich sgript Taith Stori wedi'i baratoi fesul llinell. Maen nhw'n ymateb i'r hyn rydych chi'n ei ddweud, gan feimio gweithredoedd sy'n dehongli eich sgript. Sgript Taith Stori i'r Llwynog: - Rydych chi'n llwynog, yn sefyll yn syth y tu ôl i wydr. Eisteddwch ar eich cwrcwd ac edrych i fyny ar y dail. - Mae eich gwddf yn boenus o'r ystum lletchwith hwn yr ydych ynddo. Aw! Rhwbiwch eich gwddf! - O, sut rydych yn dymuno rhedeg trwy lannerch heulog yn y goedwig! Dangoswch eich wyneb hiraethus gorau i ni! - Arhoswch – beth yw hyn yn cropian i fyny eich coes? Ceisiwch gael gwared arno! - O, aros! Eich ffrind chi ydy o, Pry-copyn. Rhowch bum bys eich llaw yn uchel i ddweud ‘helo’ wrtho. - Na, arhoswch, rhowch wyth bys yn uchel! - Mae o'n dringo eich goesau. Mae'n cosi! Mae'n gwneud i chi wingo! - Nawr mae pry-copyn yn symud i fyny eich corff blewog. O – am wingo gwinglyd! - Arhoswch, mae gan Pry-copyn syniad. Gwnewch siâp bwlb golau uwch eich pen a dywedwch, 'BING!’

			- Mae Pry-copyn yn sibrwd yn eich clust. Allwch chi ei glywed? Gwrandewch yn ofalus. - A! Gall pry-copyn eich helpu chi i ddianc. Mae o'n mynd i droelli gwe ar ben y cwpwrdd er mwyn ceisio tynnu'r to i lawr! Syniad clyfar! Rhowch nòd a gwên a bawd i fyny i annog Pry-copyn. - Mae angen i Pry-copyn gyrraedd pen y cabinet. - O, dydy o ddim yn gallu cyrraedd. Allwch chi roi Pry-copyn i sefyll ar eich trwyn i'w helpu i gyrraedd? - Arhoswch – beth oedd hynny? Tramp, tramp, tramp – y swyddog diogelwch sydd yna! Rhewch yn ôl yn eich lle – yn gyflym! - Ychydig eiliadau eto … Nawr ewch yn ôl i helpu Pry-copyn – - Na, mae'r swyddog diogelwch yn ôl! Rhewch eto! - A, mae o wedi mynd. Ffiw! - Nawr rhowch Pry-copyn i sefyll yn ôl ar eich trwyn ac – ydy, mae o wedi cropian i ben y cabinet! - Nawr mae Pry-copyn yn gweu gwe i dynnu'r to i lawr. Edrychwch ar Pry-copyn yn mynd ati – mor gyflym! Dilynwch ei symudiad troellog gwallgof gyda'ch llygaid! - Nawr mae'n amser tynnu'r to i lawr. Cymerwch y we rhwng eich dannedd … - A THYNNU! - O na … mae'r cwpwrdd yn crynu. - Ac yn ysgwyd!!! - Ysgwyd, ysgwyd, ysgwyd! - Mae'n edrych fel bod y to yn mynd i gwympo arnoch chi! - Ewch ar eich cwrcwd a pharatowch ar gyfer y gwymp… - Un, dau, tri…. - CRASH! - Rydych chi wedi'ch gorchuddio â rwbel. - Cloddiwch eich ffordd allan, cloddio, cloddio, cloddio! - Nawr - ysgwydwch yr holl ddarnau olaf o lwch! - Edrychwch i fyny. O na! Yn anffodus, dydy’r cynllun ddim wedi gweithio! Ochenaid fawr! - Dim ond darn bach o'r to dorrodd Pry-copyn! - A wel, diolchwch i Pry-copyn beth bynnag. Rhowch bum bys eich llaw yn uchel iddo. - Na! Wyth bys yn uchel!

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
10 munud	Fesul grŵp: un darn mawr o bapur a phennau ffelt	Eglurwch i’r myfyrwyr fod gan y prif gymeriad, mewn straeon cyrch clasurol, bob amser gymeriad Cynorthwyydd, sy’n eu helpu i ddianc. Mae ganddyn nhw hefyd Rhwystr bob amser, sy'n atal dianc rhag bod yn bosibl. Gallai hyn fod yn fod byw fel person neu anifail, ond gallai hefyd fod yn fod anfyw, fel drysfa anodd i ddod allan ohoni, camera gwyliadwriaeth, ac ati. Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r cymeriad Cynorthwyydd a'r cymeriad Rhwystr yn yr enghraifft Taith Stori wedi'i modelu. Efallai yr hoffai myfyrwyr feddwl am enghreifftiau o straeon clasurol, llyfrau neu ffilmiau lle mae hyn yn digwydd. Yn yr un grwpiau ag o’r blaen, mae myfyrwyr yn trafod, o safbwynt y creadur: - Pwy allai fod yn Ffrind i chi, sy'n eich helpu i ddianc? - Pwy, neu beth, yw eich Rhwystr? Ceisiwch ddarbwyllo'r grwpiau i beidio â defnyddio syniadau o'ch enghraifft wedi'i modelu. Mae grwpiau'n bwydo eu syniadau yn ôl i weddill y grŵp.	Eglurwch i’r myfyrwyr fod gan y prif gymeriad, mewn straeon cyrch clasurol, bob amser gymeriad Cynorthwyydd, sy’n eu helpu i ddianc. Mae ganddyn nhw hefyd Rhwystr bob amser, sy'n atal dianc rhag bod yn bosibl. Gallai hyn fod yn fod byw fel person neu anifail, ond gallai hefyd fod yn fod anfyw, fel drysfa anodd i ddod allan ohoni, camera gwyliadwriaeth, ac ati. Gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r cymeriad Cynorthwyydd (y Pry-copyn) a'r cymeriad Rhwystr (y Swyddog Diogelwch, neu'r To) yn yr enghraifft Taith Stori wedi'i modelu. Efallai yr hoffai myfyrwyr feddwl am enghreifftiau o straeon clasurol, llyfrau neu ffilmiau lle mae hyn yn digwydd. Yn yr un grwpiau ag o’r blaen, trafodwch, o safbwynt y Llwynog: - Pwy allai fod yn Ffrind i chi, sy'n eich helpu i ddianc? - Pwy, neu beth, yw eich Rhwystr? Ceisiwch ddarbwyllo'r grwpiau i beidio â defnyddio syniadau o'ch enghraifft wedi'i modelu. Mae grwpiau'n bwydo eu syniadau yn ôl i weddill y grŵp.
10 munud	Darnau mawr o bapur fel papur siwgr, a beiros.	Eglurwch i'r grwpiau fod y Rhif 3 yn rhif hud mewn straeon. Gelwir hyn yn Rheol Tri. Er mwyn creu ein stori, rydyn ni'n mynd i feddwl am dri syniad. Dylai grwpiau ddyfeisio tair ffordd y gallai eu creadur gyflawni eu Dihangfa Wyllt. Dylai hyn gynnwys goresgyn y Rhwystrau, gyda chymorth y Cyfaill. Ar ddarn mawr o bapur neu bapur siwgr, dylai pob grŵp dynnu llun neu ysgrifennu’r tri syniad yn eu trefn. Yn y stori, bydd y ddau ymgais gyntaf ar Ddihangfa Wyllt yn methu, ond bydd y trydydd yn llwyddo.	Eglurwch i'r grwpiau fod y Rhif 3 yn rhif hud mewn straeon. Gelwir hyn yn Rheol Tri. Er mwyn creu ein stori, rydyn ni'n mynd i feddwl am dri syniad. Dylai grwpiau ddyfeisio tair ffordd y gallai eu creadur gyflawni eu Dihangfa Wyllt. Dylai hyn gynnwys goresgyn y Rhwystrau, gyda chymorth y Cyfaill. Ar ddarn mawr o bapur neu bapur siwgr, dylai pob grŵp dynnu llun neu ysgrifennu’r tri syniad yn eu trefn. Yn y stori, bydd y ddau ymgais gyntaf ar Ddihangfa Wyllt yn methu, ond bydd y trydydd yn llwyddo.

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
10 munud		Mae myfyrwyr yn cyflwyno sgerbwd naratif eu stori Dihangwr i weddill y dosbarth, trwy siarad drwy gyfrwng y lluniau ar eu darn o bapur siwgr. Gallant ddewis esbonio eu cynlluniau dianc neu efallai eu bod wedi datblygu eu syniadau ymhellach ac yn gallu eu hactio fel chwarae rôl.	Mae myfyrwyr yn cyflwyno sgerbwyd naratif eu stori Llwynog i weddill y dosbarth, trwy siarad drwy gyfrwng y lluniau ar eu darn o bapur siwgr. Gallant ddewis esbonio eu cynlluniau dianc neu efallai eu bod wedi datblygu eu syniadau ymhellach ac yn gallu eu hactio fel chwarae rôl.
5 munud	Cynlluniau stori **(ADNODD B)**	Dosbarthwch y Cynlluniau Stori **(ADNODD B)**. Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu nodiadau neu'n tynnu brasluniau i'w helpu i gofio sgerbwd y syniadau ar gyfer eu stori. Eglurwch i'r myfyrwyr mai'r Cynlluniau Stori hyn yw eu cynllun ar gyfer stori hirach. Dylent fynd â'r rhain gyda nhw er mwyn gweithio arnynt yn yr ysgol, eu haddurno â mwy o ddisgrifiadau synhwyraidd a'u cefnogi ag ymchwil wyddonol ar gynefinoedd.	Dosbarthwch y Cynlluniau Stori. Bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu nodiadau neu'n tynnu brasluniau i'w helpu i gofio sgerbwd y syniadau ar gyfer eu stori. Eglurwch i'r myfyrwyr mai'r Cynlluniau Stori hyn yw eu cynllun ar gyfer stori hirach. Dylent fynd â'r rhain gyda nhw er mwyn gweithio arnynt yn yr ysgol, eu haddurno â mwy o ddisgrifiadau synhwyraidd a'u cefnogi ag ymchwil wyddonol ar gynefinoedd.

Amser	Adnodda u sydd eu hangen	Gweithgaredd	Enghraifft wedi'i modelu o'r Amgueddfa Stori
Rhan 1: Sesiwn Llythrennedd			
5 munud		Fel ymarfer terfynol dewisol, dywedwch wrth y myfyrwyr i ddychmygu'r sefyllfa pan mae'r creadur wedi cyrraedd ei gynefin naturiol sy'n gyfoeth o fywyd. Rhannwch y myfyrwyr yn grwpiau o bedwar neu bump a chyfarwyddwch bob grŵp i wneud y siapiau canlynol, ar y cyd, â'u cyrff. Rhowch 10 eiliad iddyn nhw baratoi, yna cyfrif i lawr o dri a rhaid i'r myfyrwyr rewi yn y safleoedd hyn. Efallai y bydd angen i chi ddangos delweddau o rai o'r siapiau, e.e. y droellen. - Cylch neu hirgrwn - Troellen - Ffigur wyth - Sffêr - Tonnau (y môr) - Gwynt yn crychdonni ar draws y cae - Twnnel Ailadroddwch y gweithgaredd hwn, ond y tro hwn, unwaith y byddant yn eu lle, dylen nhw geisio symud fel grŵp - e.e. y cylch i droelli, y droellen i ddad-droelli, y tonnau i rolio. Gwnewch hynny am bum eiliad ar gyfer pob siâp. Nawr bod y myfyrwyr wedi arbrofi ar y ffurfiau naturiol, gallant nawr actio ail Daith Stori fel y gweithgaredd cynharach, lle maent yn meimio wrth i chi ddarllen cyfarwyddiadau yn uchel. Yn yr ail Daith Stori hon, mae’r myfyrwyr yn archwilio taith y creadur i gynefin naturiol.	Fel ymarfer terfynol dewisol, dywedwch wrth y myfyrwyr i ddychmygu'r sefyllfa pan mae'r creadur wedi cyrraedd ei gynefin naturiol sy'n gyfoeth o fywyd. Rhannwch y myfyrwyr yn grwpiau o bedwar neu bump a chyfarwyddwch bob grŵp i wneud y siapiau canlynol, ar y cyd, â'u cyrff. Rhowch 10 eiliad iddyn nhw baratoi, yna cyfrif i lawr o dri a rhaid i'r myfyrwyr rewi yn y safleoedd hyn. Efallai y bydd angen i chi ddangos delweddau o rai o'r siapiau, e.e. y droellen. - Cylch neu hirgrwn - Troellen - Ffigur wyth - Sffêr - Tonnau (y môr) - Gwynt yn crychdonni ar draws y cae - Twnnel Ailadroddwch y gweithgaredd hwn, ond y tro hwn, unwaith y byddant yn eu lle, dylen nhw geisio symud fel grŵp – e.e. y cylch i droelli, y droellen i ddad-droelli, y tonnau i rolio. Gwnewch hynny am bum eiliad ar gyfer pob siâp. Mae myfyrwyr yn dod o hyd i ofod yn yr ystafell ac yn sefyllfa fel y creadur yn y gofod arddangos. Yna darllenwch y cyfarwyddiadau hyn ar gyfer ail Daith Stori a rhaid i’r myfyrwyr feimio wrth i chi ddarllen: - Rydych chi wedi dianc rhag yr arddangosfa. - Anadlwch yr awyr. - Nawr, gallwch chi deimlo bywyd yn mynd i mewn i'ch corff yn araf. Mae'n dechrau ar flaenau eich pawennau neu adenydd neu antena … siglwch nhw. - Nawr gallwch chi ddechrau symud eich pen. - A! Nawr gallwch chi symud yn fwy rhydd – symudwch eich coesau ac ysgwyd eich pawennau. A, mae'n teimlo mor dda!

			- Mae darnau o'ch croen ceramig gwreiddiol yn dod i ffwrdd – ping, ping, ping, drwy'r awyr! Rydych chi'n tyfu ffwr meddal, moethus – mor gyfforddus! - Nawr edrychwch i lawr. Mae eich ffrind llwynog ar y llawr. Ewch lawr y goeden i'w gyfarfod. - Symudwch ymlaen i roi pum bys eich llaw yn uchel i'ch ffrind llwynog. Mae eich ffrind llwynog yn chwarae erlid! - Rhedwch tuag at goeden, ewch o'i chwmpas. - Nawr y goeden nesaf – ewch o gwmpas y goeden honno. - Rydych chi wedi dod o hyd i'ch ffrind! Cyffiwch ef ar ei ben – nawr rhedwch i ffwrdd oherwydd mae o ar eich ôl chi. - Mae'n iawn, mae wedi anghofio amdano. - Mae'r holl redeg o gwmpas yn flinedig. Eisteddwch ar eich cwrcwd a chymerwch anadl ddofn. - Chwiliwch am bwll a chymerwch lymaid o ddŵr. - Arhoswch – codwch eich pen! Gallwch glywed siffrwd yn y tyfiant o'ch blaen! - Yn y pellter, gallwch weld cwningen. - Gostyngwch eich pen i lawr yn isel. - Symudwch yn ddistaw, yn agos at y ddaear. - Cuddiwch y tu ôl i goeden – cymerwch gipolwg. A chuddio eto. - Yn araf iawn – iawn – diiisgwwyyl….. - Neidiwch! - A, rhedodd y gwningen i ffwrdd. Dim ots. Ysgwydwch eich corff.
		Gorffennwch y sesiwn yn eu hatgoffa i ddatblygu eu straeon. Edrychwn ymlaen at weld beth sy'n cael ei gynhyrchu!	Gorffennwch y sesiwn yn eu hatgoffa i ddatblygu eu straeon. Edrychwn ymlaen at weld beth sy'n cael ei gynhyrchu!

Trosolwg adnoddau

Adnoddau A

Tud 14-16

Cynllun Stori
Adnoddau B

Tud 17

Adnoddau A

Argraffwch ddigon o gopïau o'r canlynol fel y gall pob myfyriwr gael naill ai swigen meddwl neu siarad.

Adnoddau A

Argraffwch ddigon o gopïau o'r canlynol fel y gall pob myfyriwr gael naill ai swigen meddwl neu siarad.

Adnoddau A

Argraffwch ddigon o gopïau o'r canlynol fel y gall pob myfyriwr gael naill ai swigen meddwl neu siarad.

Cynllun Stroy
Adnoddau B

Dangoswch eich creadur yn y gofod arddangos

Ymgais 1! Sut bydd eich creadur yn ceisio dianc?

Pam mae Ymgais 1 yn methu?

Ymgais 2! Sut bydd eich creadur yn ceisio dianc?

Pam mae Ymgais 2 yn methu?

Ymgais 3! Sut bydd eich creadur yn ceisio dianc?

Pam mae Ymgais 3 yn llwyddo?

Dangoswch eich creadur mewn cynefin naturiol sy'n gyfoeth o fywyd.

The Wild Escape

Cynhyrchwyd gan

Art Fund_

Ariennir gan

LOTTERY FUNDED

ARTS COUNCIL ENGLAND

Supported using public funding by

ARTS COUNCIL ENGLAND

Adnodd adrodd straeon wedi'i greu gan

THE STORY MUSEUM